

# RHYBUDD O GYFARFOD



*Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri*

*Emyr Williams*

*Prif Weithredwr*

*Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri*

*Penrhyndeudraeth*

*Gwynedd LL48 6LF*

*Ffôn: (01766) 770274*

*E.bost: [parc@eryri.llyw.cymru](mailto:parc@eryri.llyw.cymru)*

**Cyfarfod:** Pwyllgor Cynllunio a Mynediad

**Dyddiad:** Dydd Mercher 7 Rhagfyr 2022

**Amser:** 10.00 y.b.

**Man Cyfarfod:** Y Llyfrgell, Plas Tan y Bwlch,  
Maentwrog a thrwy Zoom

***Gofynnir i'r Aelodau ymuno â'r cyfarfod 15 munud cyn yr amser  
cychwyn dynodedig***

***Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd***

*Y Cynghorydd: Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Louise Hughes,  
June Jones, Kim Jones, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts,  
John Pughe Roberts, Meryl Roberts;*

***Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy***

*Y Cynghorydd: Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Dilwyn Owain Roberts;*

***Aelodau wedi'u penodi gan Llywodraeth Cymru***

*Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Mrs. Sarah Hattle, Mr. Tim Jones,  
Ms. Naomi Luhde-Thompson, Ms. Delyth Lloyd.*

# R H A G L E N

## Rhifau Tudalen

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**  
Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb a datganiadau'r Cadeirydd.
2. **Datgan Diddordeb**  
Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan aelodau neu swyddogion mewn perthynas ag unrhyw eitem fusnes. **3 - 6**
3. **Cofnodion**  
Bydd y Cadeirydd yn cynnig bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 19 o Hydref 2022 yn cael eu harwyddo fel cofnod cywir (copi yma) a derbyn y materion sy'n codi, er gwybodaeth. **7 - 13**
4. **Adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir**  
Cyflwyno adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir am y ceisiadau a ddaeth i law. (Copïau yma)
5. **Adroddiadau Diweddarau**  
Cyflwyno adroddiadau diweddarau, er gwybodaeth. (Copïau yma) **14 - 40**
6. **Penderfyniadau a Ddirprwywyd**  
Cyflwyno rhestr o geisiadau sydd wedi cael eu penderfynu yn unol ag awdurdod a ddirprwywyd, er gwybodaeth. (Copi yma) **41 - 51**
7. **Adroddiad ar Ddatblygiad Hillside Aberdyfi**  
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir ar benderfyniad diweddar yr Goruchaf Lys (Copi yma) **52 - 93**

**PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD PARC CENEDLAETHOL ERYRI  
DYDD MERCHER 19 HYDREF 2022**

Cynghorydd Elwyn Edwards (Gwynedd) (Cadeirydd)

**PRESENNOL:**

**Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd**

Cynghorwyr Annwen Hughes, Louise Hughes, June Jones, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts;

**Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Dilwyn Owain Roberts;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**

Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Ms. Sarah Hattle, Mr. Tim Jones, Ms. Naomi Luhde-Thompson.

**Swyddogion**

Mr G. Iwan Jones, Mr. Jonathan Cawley, Ms Jane Jones, Mr. Dafydd Thomas, Ms. Eiliw Owen, Mr. Geraint Evans, Ms. Anwen Gaffey.

Gan fod y cyfarfod yn cael ei gynnal o bell, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol:-

- o nad oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd.
- o roedd y cyfarfod yn cael ei gofnodi i gynorthwyo i wirio'r cofnodion a bydd ar gael ar wefan yr Awdurdod yn ddiweddarach.

1. **Ymddiheuriadau**  
Y Cynghorydd Kim Jones; Ms. Delyth Lloyd.
2. **Datganiad Buddiant**  
Ni ddatganwyd unrhyw Ddiddordeb Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.
3. **Cofnodion**  
Derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad a gynhaliwyd ar 7 Medi 2022 ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.
4. **Cynllun Datblygu Lleol Eryri – Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer 2021-2022**  
**Cyflwynwyd** – Adroddiad gan yr Uwch Swyddog Polisi Cynllunio i drafod a chymeradwyo cynnwys yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer 2021-2022.

**Adroddwyd** - cyflwynodd yr Uwch Swyddog Polisi Cynllunio'r Adroddiad Monitro a rhoi rhagor o fanylion i'r Aelodau am y prif ganfyddiadau.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad Monitro a thrafodwyd y canlynol:-

- yr angen i gael cydbwysedd rhwng gwarchod yr amgylchedd a lles economaidd cymunedau o fewn y Parc Cenedlaethol.
- 'Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040' a'i bwysigrwydd ar gyfer adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Eryri yn y dyfodol.
- byddai datblygiad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd , ac er nad yw'n fater uniongyrchol i'r Cynllun Datblygu Lleol, bydd yn cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad.
- o dan yr adran o dan y pennawd "Ymchwil ac ystyriaethau pellach ..." gofynnodd Aelod i swyddogion gryfhau ac adlewyrchu strategaethau'r Awdurdod ar Dwristiaeth

Gynaliadwy, Rheoli Trafnidiaeth a mynd i'r afael â newid hinsawdd a'r argyfwng bioamrywiaeth sydd angen ei integreiddio yn y CDLI. Gallai adroddiadau Aquaterra a Small World Consulting ddarparu data defnyddiol i adeiladu arno a dylid datblygu'r strategaethau bioamrywiaeth a hinsawdd ochr yn ochr â'r adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir fod Strategaeth Rheoli Ymwelwyr yr Awdurdod, y Strategaeth Trafnidiaeth a Pharcio, y Strategaeth Garbon a pholisïau Llywodraeth Cymru ar Adfer Natur ac ati, i gyd ar gamau paratoadol amrywiol, ac y byddant yn cael eu hystyried fel rhan o'r Adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol.

- Gofynnwyd i swyddogion a oedd cyfleoedd yn y CDLI i wella safonau adeiladu mewn perthynas â materion hinsawdd, gyda'r Parc Cenedlaethol yn dod yn esiampl yn y maes hwn heb o reidrwydd effeithio ar gostau?
- teimlai aelod nad oedd y cysylltiad rhwng gwarchod a gwella rheolaeth yr amgylchedd naturiol a rôl amaethyddiaeth yn ddigon clir yn y ddogfen.
- yng ngoleuni sylwadau blaenorol am warchod yr amgylchedd, dywedodd Aelod fod y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y Parc Cenedlaethol yr un mor bwysig.
- Trafododd yr Aelodau'r cynnydd arfaethedig o 10% mewn plannu coed mewn ymgais i gyrraedd y targed carbon net sero ac effeithiau posibl hyn ar y dirwedd.
- mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd swyddogion fod y Gofrestr Adeiladau Traddodiadol, y cyfeiriwyd ati ym mhara. 4.7, a'r meini prawf ar gyfer cael eu cynnwys ar y gofrestr, yn cael eu harchwilio ymhellach a bod Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn ffurfioli'r broses ar gyfer adeiladau traddodiadol.
- Trafododd yr Aelodau ymhellach para. 5.21 a'r berthynas rhwng incwm a phrisiau tai ac effaith hyn ar fforddiadwyedd tai yn y Parc Cenedlaethol. Yn codi wedi hynny, bu'r Aelodau hefyd yn trafod tai a arweinir gan y gymuned, a'r cydweithio parhaus â chymdeithasau tai ac awdurdodau tai lleol fel y cyfeirir ato ym mharagraffau. 5.58 a 5.59. Nododd yr Aelodau hefyd fod yr Awdurdod yn gweithio gyda phartneriaid i greu ac ariannu swyddog i helpu i arwain datblygiadau yn y gymuned.
- Trafododd yr Aelodau'r defnydd o ddeunyddiau amgen, megis pren, i ddarparu tai fforddiadwy ar gyfer y dyfodol. Byddai swyddogion yn cefnogi mentrau priodol pe bai ceisiadau'n cael eu cyflwyno.
- Nododd yr aelodau y byddai adroddiad ar y newidiadau diweddar i ddeddfwriaeth a pholisi cynllunio ar gyfer ail gartrefi, gosodiadau tymor byr a'r defnydd posibl o Gyfarwyddyd Erthygl 4 yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf o'r Gweithgor Aelodau ym mis Rhagfyr.
- teimlai Aelod y dylai'r CDLI, yn y dyfodol, ganiatáu'r un cyfleoedd datblygu i drigolion sy'n byw o fewn y Parc Cenedlaethol ag sydd ar gael i bobl sy'n byw y tu allan i'r ffin.
- Cefnogodd yr aelodau gyfleoedd i gefnogi economi wledig gynaliadwy trwy gryfhau cynhyrchiant bwyd / cadwyn fwyd leol.
- i gywiro gwall teipograffyddol ym mhara. 6.25 i ddarllen 'yn ystod misoedd haf 2022'.
- cytunodd swyddogion i ystyried ymhellach bolisïau ar fynediad i safleoedd anghysbell a'r goblygiadau tirwedd o ganlyniad.
- cytunodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir i drafod pryderon yr Aelodau gyda'r Pennaeth Cadwraeth, Coetiroedd ac Amaethyddiaeth, mewn perthynas â chwmnïau sy'n prynu ffermydd ledled Cymru i blannu coed er mwyn gwrthbwysu eu hól troed carbon. Nododd yr Aelodau fod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r broblem.
- Diolchodd yr aelodau i'r swyddogion am yr adroddiad a oedd wedi'i ysgrifennu'n dda ac yn hawdd ei ddeall.

## **PENDERFYNWYD**

- 1. nodi a chymeradwyo Adroddiad Monitro Blynyddol 2021-22.**
- 2. cytuno i gynnal adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031 mabwysiedig o ganlyniad i dystiolaeth yr Adroddiad Monitro Blynyddol, newidiadau cyd-destunol cenedlaethol a lleol sylweddol, cyhoeddi Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 (y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol) ynghyd â newidiadau eraill mewn polisi cenedlaethol.**
- 3. cytuno ar y camau nesaf ar gyfer cynnal adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031 mabwysiedig, trwy baratoi Adroddiad Adolygu ac adrodd ar y canfyddiadau i Lywodraeth Cymru.**

### **5. Adroddiadau Diweddarau**

**Cyflwynwyd** – Adroddiadau diweddarau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir ar geisiadau cynllunio a materion cydymffurfiaeth.

Gweler yr Atodlen o Benderfyniadau Cynllunio sydd isod.

### **6. Penderfyniadau Dirprwyedig**

**Cyflwynwyd a Derbyniwyd** – Rhestr o geisiadau y penderfynwyd arnynt yn unol ag awdurdod a ddirprwywyd.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.30**

## ATODLEN O BENDERFYNIADAU CYNLLUNIO – 19 Hydref 2022

### Rhif yr Eitem.

#### 5. Adroddiadau Diweddarau

- (1) Hysbysiadau Gorfodi, Hysbysiadau Gorfodi Adeiladau Rhestredig a gyflwynwyd o dan bwerau dirprwyedig a Rhestr o Achosion Cydymffurfiaeth – **Er Gwybodaeth**

Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan Aelod ynghylch yr amser y mae'r Awdurdod yn ei gymryd i fynd i'r afael ag achosion o dorri rheolau cynllunio, dywedodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir, er bod y broses orfodi ei hun yn gymhleth, roedd problemau recriwtio staff nid yn unig gan yr Awdurdod, ond hefyd ar draws Cymru gyfan. Sicrhaodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir yr Aelodau unwaith y bydd ailstrwythuro'r Gwasanaeth Cynllunio wedi'i gwblhau a'i staffio'n llawn, bydd perfformiad yn gwella.

#### NP5/54/ENFLB33M – Neuadd Nannau, Llanfachreth

Darparodd y Rheolwr Cynllunio Dros Dro ddiweddariad llafar i'r Aelodau ac adroddiad pellach bydd diweddariad yn cael ei ddarparu yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad. Nododd yr aelodau fod Swyddog Amgylchedd Hanesyddol newydd wedi'i benodi'n ddiweddar.

#### **PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

- (2) Cytundebau Adran 106 – **Er Gwybodaeth**

Gofynnodd Aelod i'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir roi diweddariad i'r Aelodau newydd ar y polisi Symiau Gohiriedig. Yn codi wedi hynny, gofynnodd Aelod gan yr Awdurdod bolisi sy'n cefnogi trosti capeli/eglwysi segur fewn cymunedau i mewn i fflatiau? Cynghorodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir y byddai'n cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol.

#### **PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

- (3) Ceisiadau heb eu penderfynu lle mae mwy na 13 wythnos wedi mynd heibio – **Er Gwybodaeth**

#### **PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

<b><u>Rhif Eitem / Item No.</u></b>	<b><u>Cyfeirnod / Reference No.</u></b>	<b><u>Disgrifiad / Description.</u></b>	<b><u>Swyddog Achos / Case Officer</u></b>
1	NP5/73/LBAD425 C	Caniatâd Hysysbeeb i arddangos panel dehongli yn y maes parcio, Plas Tan-y-Bwlch, Maentwrog. / Advertisement Consent to display interpretation panel in car park, Plas Tan-y-Bwlch, Maentwrog.	Aled Lloyd

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri      Dyddiad: 07-Rhag-2022**  
**– Pwyllgor Cynllunio a Mynediad.**

---

**Cais Rhif:** NP5/73/LBAD425C

**Dyddiad Cofrestru:** 12/09/22

**Cymuned:** Maentwrog

**Cyfeirnod Grid:** 265371 340437

**Swyddog Achos:** Mr Aled Lloyd

**Lleoliad:**

Plas Tan-y-Bwlch, Maentwrog. LL41 3YU

**Ymgeisydd:**

Mr. Stuart Jones,  
 Headland Design  
 65 High Street  
 Farndon  
 Chester  
 CH3 6PT

**Disgrifiad:**

Caniatâd Hysysbeb i arddangos panel dehongli yn y maes parcio

**Crynodeb o'r Argymhelliad:**

**I roi caniatâd hysbysebu yn ddarostyngedig i'r amodau safonol a gynhwysir yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992 (fel y'u diwygiwyd) ac amodau ychwanegol yn ymwneud â:**

- Cyfyngiad pum mlynedd ar gyfer arddangos yr hysbyseb; a
- Hysbyseb i'w arddangos yn unol â'r cynlluniau a gymeradwywyd.

**Rheswm(au) Dros Adrodd am y Cais i'r Pwyllgor Cynllun Dirprwyo**

Cais ar dir sy'n eiddo i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

**Dynodiadau Tir:**

Cefn gwlad agored  
 Safle Treftadaeth y Byd  
 Parciau a Gerddi Hanesyddol  
 Gardd Gegin Hanesyddol

**Disgrifiad o'r Safle**

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri sydd berchen ar y tir, ac mae'n ffurfio maes parcio gorlif i Blas Tan y Bwlch. Mae llwybrau troed yn arwain o'r maes parcio i'r Plas.

Bydd y Panel yn cael ei leoli ar ochr llwybr troed presennol ac yn disodli 3 panel gwybodaeth presennol.



Bydd y panel dehongli yn rhan o brosiect ehangach i osod dehongliad treftadaeth ar draws Tirwedd Llechi Safle Treftadaeth y Byd.

**Datblygiad Arfaethedig:**

Mae'r cynnig yn ceisio caniatâd hysbysebu ar gyfer gosod un panel dehongli treftadaeth ar arddull darllenfa 1m x 0.4m.

**Polisiâu Cynllunio Perthnasol – Cynllun Datblygu Lleol Eryri (2016-2031)**

<i>Polisi Rhif.</i>	<i>Polisi</i>
PS A	Pwrpasau'r Parc Cenedlaethol a Dylunio Cynaliadwy
PD 1	Egwyddorion Datblygu Cyffredinol
PD 10	Hysbyseb ac arwyddion
PS D	Amgylchedd Naturiol

**Ymgynghoriadau:**

Cyngor Cymuned Maentwrog	Dim ymateb
Cadw	Dim gwrthwynebiad
Ecoleg	Dim pryderon ecolegol.

**Ymatebion o ganlyniad i hysbysiad safle ac ymgynghoriad â chymdognion:**

d/b

**1. Asesiad**

*Egwyddor Datblygu*

- 1.1 Mae Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 7 Llywodraeth Cymru yn datgan: 'Mae'r dull cyffredinol o ymdrin â cheisiadau hysbysebu yn debyg i'r broses o ymdrin â cheisiadau cynllunio ond gyda dau wahaniaeth pwysig. Yn gyntaf, dim ond er budd amwynder a diogelwch y cyhoedd y gellir rheoli arddangos hysbysebion awyr agored. Yn ail, derbynnir (gydag un eithriad bach mewn Ardaloedd o Reolaeth Arbennig, lle mae angen i ymgeisydd ddangos gofyniad rhesymol am hysbyseb) bod unrhyw un sy'n bwriadu arddangos hysbyseb angen yr hysbyseb hwnnw yn y lleoliad penodol hwnnw, boed hynny am resymau masnachol neu resymau eraill.'
- 1.2 Bydd Polisi Datblygu 10 yn caniatáu hysbysebion neu arwyddion preifat ar eiddo lle bodlonir yr holl feini prawf canlynol:
  - i. Nid yw'r arwydd yn niweidio cymeriad adeilad neu olygfa amlwg.
  - ii. Nid yw'r arwydd wedi'i oleuo'n fewnol.
  - iii. Nid yw maint a graddfa'r arwydd yn amharu ar gymeriad, edrychiad na gosodiad yr adeilad sy'n ei gynnal, na'r dirwedd o'i amgylch ac nid yw'n ymdebygu i arwydd priffordd.

1.3 Ar sail y cyd-destun polisi a amlinellwyd uchod ystyrir bod egwyddor y datblygiad yn dderbyniol.

## **2.0 Asesiad Cynllunio.**

- 2.1 Bydd gosodiad y panel yn cael ei leoli ar lwybr presennol; bydd yn cynnwys ychydig iawn o waith daear ac ni fydd yn cael ei oleuo. Nid oes unrhyw lwybrau i effeithio ar nodweddion y safle gwarchoddedig.
- 2.2 Derbynnir bod angen i'r panel gwybodaeth ddarparu gwybodaeth ar y dynodiad diweddar fel rhan o Safle Treftadaeth y Byd sy'n cynnwys Plas Tan y Bwlch a'r tiroedd. Mae'n briodol felly asesu'r cynnig er budd mwynderau a diogelwch y cyhoedd.
- 2.3 Oherwydd natur y panel gwybodaeth ni ystyrir ei fod yn cael effaith ar gymeriad na gosodiad yr ardal. Oherwydd y raddfa gymharol fach, ni fyddai'r panel yn amharu ar y dirwedd ehangach o'i amgylch. Ni chynigir unrhyw oleuadau felly ni fydd y panel yn rhy amlwg yn y dirwedd.
- 2.4 Ni fyddai'r bwriad yn achosi unrhyw bryder i ddiogelwch y cyhoedd.

## **3 Casgliad**

- 3.1 Byddai'r cynnig yn cydymffurfio â gofynion Polisi Datblygu 1 a 10 lle na fyddai'n amharu ar gymeriad, edrychiad na gosodiad y dirwedd o amgylch.
- 3.2 Byddai'r bwriad hefyd yn cydymffurfio â Pholisi Strategol A drwy hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau 'Rhinweddau Arbennig' yr ardal.
- 3.3 Argymhellir felly y dylid rhoi caniatâd.

### **Papurau Cefndirol ym Mhentwr Dogfennau Rhif 1: Na**

#### **ARGYMHELLIAD: RHOI caniatâd yn ddarostyngedig i'r 5 amod safonol a gynhwysir yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992 (fel y'i diwygiwyd) a'r amodau a ganlyn:**

- 1 Rhoddir y caniatâd hysbysebu am bum mlynedd o ddyddiad y penderfyniad hwn.
- 2 Rhaid arddangos yr hysbyseb a ganiateir drwy hyn yn unol â chynllun y safle a maint y panel a'r manylion a ddilyswyd gan yr Awdurdod ar 12/09/22.



## Rhesymau dros osod yr Amodau:

- 1 Er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992 (fel y'i diwygiwyd).
- 2 Diffinio'r caniatâd ac er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.

Y pum amod safonol sydd wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau:

- 1 Ni chaniateir arddangos hysbyseb heb ganiatâd perchennog y safle neu unrhyw berson arall sydd â buddiant yn y safle sydd â hawl i roi caniatâd.
- 2 Ni chaniateir gosod nac arddangos unrhyw hysbyseb er mwyn :
  - (a) peryglu pobl sy'n defnyddio unrhyw briffordd, rheilffordd, dyfrffordd, doc, harbwr neu faes awyr (sifil neu filwrol);
  - (b) cuddio, neu rwystro dehongliad parod o, unrhyw arwydd traffig, signal rheilffordd neu gymorth mordwyo trwy gyfrwng dŵr neu awyr; na
  - (c) llesteirio gweithrediad unrhyw ddyfais a ddefnyddir at ddibenion diogelwch neu wylidwriaeth neu i fesur cyflymder unrhyw gerbyd.
- 3 Rhaid i unrhyw hysbyseb a arddangosir, ac unrhyw safle a ddefnyddir ar gyfer arddangos hysbysebion, gael eu cynnal mewn cyflwr nad yw'n amharu ar fwynderau gweledol y safle.
- 4 Rhaid i unrhyw strwythur neu hysbysfwrdd a godir neu a ddefnyddir yn bennaf at ddiben arddangos hysbysebion gael ei gynnal mewn cyflwr nad yw'n peryglu'r cyhoedd.
- 5 Pan fo hysbyseb yn ofynnol o dan y Rheoliadau hyn i gael ei symud, rhaid gadael y safle mewn cyflwr nad yw'n peryglu'r cyhoedd nac yn amharu ar amwynder gweledol.

# Plas Tan Y Bwlch




Plan Produced for: Snowdonia National Park


Date Produced: 03 Aug 2022

Plan Reference Number: TQRQM22215114011875

Scale: 1:1250 @ A4



New panel location



Existing old panels removed

**Llechi Cymru Wales Slate**

The story of Wales Slate is epic and everlasting. It has left its mark on this awe-inspiring landscape, culture, communities and the world. This special corner of Wales has been recognised as a World Heritage Site.

**Dinorwig Quarry Hospital**

The hospital was built by the owners of Dinorwig Quarry. It was a busy place. Quarrying was dangerous work, men were often injured or killed. The hospital was built to care for the injured and the sick. It was a place of hope and healing.

**Dinorwig Quarry Hospital**

The hospital was built by the owners of Dinorwig Quarry. It was a busy place. Quarrying was dangerous work, men were often injured or killed. The hospital was built to care for the injured and the sick. It was a place of hope and healing.

FUNDERS LOGOS HERE

Client: SNP	
Job: Plas Tan y Bwlch	
Drawing: Interpretive sign details -	
Drawn By: SJL	Date: 25 July 2022
Scale: 1:20	Drawing No.: 1 of 1





**PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD  
07 RHAGFYR 2022**

**RHYBUDDION GORFODAETH,  
RHYBUDDION GORFODAETH  
ADEILAD RHESTREDIG A  
GYFLWYNWYD O DAN BWERAU  
DIRPRWYEDIG A RHESTR O  
ACHOSION CYDYMFFURFIAETH**

**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI**

**PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD, 7fed O Rhagfyr**

**2022**

**RHESTR O ACHOSION CYDYMFFURFIAETH**

**Achosion newydd**

	<b>Cyfeirnod</b>	<b>Dyddiad y gŵyn gyntaf neu'r Dyddiad y'i gwelwyd gan Swyddogion Cydymffurfiaeth</b>	<b>Lleoliad y Safle</b>	<b>Manylion Tor-rheolaeth Cynllunio Honedig</b>	<b>Y Sefyllfa Gyfredol</b>
1	NP4/26/ENF343A	Hydref 2022	Hafodty Gwyn, Pentrefoelas, Betws y Coed	Defnyddio Carafan Statig ar y Safle	Llythyr wedi'i anfon at y perchennog/deiliad. Dim ymateb wedi ei dderbyn hyd yn hyn.
2	NP5/50/ENFL443C	Hydref 2022	Balkan Hill House, Aberdyfi	Adeiladu pwll nofio	Ebost wedi'i anfon at y berchnogion.
3	NP5/63/ENF281	Hydref 2022	Gorseddau, Cwmtirmynach, Y Bala	Gwnaed Gwaith Adeiladu a Pheirianyddu	Llythyr wedi'i anfon at y perchennog/deiliad. Dim ymateb wedi ei dderbyn hyd yn hyn.

4	NP5/77/ENFLB60H	Hydref 2022	Gwesty Maes y Neuadd, Talsarnau	Gwaith yn cael ei gyflawni	Cynhaliwyd ymweliad safle a chafwyd trafodaethau gyda'r perchennog.
---	-----------------	-------------	---------------------------------	----------------------------	---

**Yn disgwyl Cais Ôl-weithredol / Cais am Ganiatâd Adeilad Rhestredig / Cais Tystysgrif Cyfreithlondeb Defnydd /7Ddatblygiad sy'n Bodoli**

	<b>Cyfeirnod</b>	<b>Dyddiad y gŵyn gyntaf neu'r Dyddiad y'i gwelwyd gan Swyddogion Cydymffurfiaeth</b>	<b>Lleoliad y Safle</b>	<b>Manylion Tor-rheolaeth Cynllunio Honedig</b>	<b>Y Sefyllfa ar Adeg y Cyfarfod Pwyllgor Diwethaf</b>	<b>Diweddariadau ers y Cyfarfod Pwyllgor Diwethaf</b>
5	NP3/15/ENFT202B	14- Medi -2022	Blaen-y-Nant, Nant Peris. LL55 4UL	Datblygiad anawdurdodedig o adeilad allanol gerllaw eiddo presennol	Cynhaliwyd ymweliad safle. Anfonwyd gohebiaeth a chynelir deialog gyda'r perchennog.	Cais wedi'i gyflwyno. Wrthi'n cael ei ddilysu..
6	NP5/50/ENFLB59B	20- Ion -2022	14 Glandyfi Terrace, Aberdyfi. LL35 0EB.	Ffenestri newydd ar y dormer blaen	Cysylltwyd â'r perchennog ac ar hyn o bryd rhoddir gwybod iddynt am eu hopsiynau i ddatrys y mater hwn.	Dim diweddariad pellach i'w adrodd i'r pwyllgor hwn.
7	NP5/67/ENF335	Medi 2020	Tarren Y Gesail, Pantperthog	Trac beic mynydd newydd	Pecyn cais cynllunio drafft wedi ei dderbyn. Cynhelir deialog gyda'r perchennog / asiant.	Cais wedi'i gyflwyno. Wrthi'n cael ei ddilysu..



**Wedi derbyn Cais Ôl-weithredol**

	<b>Cyfeirnod</b>	<b>Dyddiad y gŵyn gyntaf neu'r Dyddiad y'i gwelwyd gan Swyddogion Cydymffurfiaeth</b>	<b>Lleoliad y Safle</b>	<b>Manylion Tor-rheolaeth Cynllunio Honedig</b>	<b>Y Sefyllfa ar Adeg y Cyfarfod Pwyllgor Diwethaf</b>	<b>Diweddariadau ers y Cyfarfod Pwyllgor Diwethaf</b>
8	NP2/16/ENF2E	14-Ion-2022	Bryn Awelon, Garndolbenmaen, LL51 9UJ.	Gwaith peirianyddol di-awdurdod gan gynnwys trac/ffordd fynediad newydd. Natur flêr y tir/gwaith	Cynhaliwyd cyfarfod safle gyda'r perchennog i drafod anghysondebau gyda'r cais. Swyddog achos perthnasol y cais cynllunio gwreiddiol yn cynnal deialog gyda'r ymgeisydd.	Dim diweddariad pellach ar gyfer y pwyllgor hwn.
9	NP4/11/ENF100F	Mawrth 2021	Tan y Bryn, Pentre Felin, Betws y Coed	Datblygiad heb ei adeiladu yn unol â chynlluniau cymeradwy (NP4/11/100F)	Gwrthodwyd y cais. Anfonwyd gohebiaeth at y perchennog ym mis Mai 2022 i fynd i'r afael â materion sy'n weddill. Aros am ymateb.	Gwaith adfer yn cael ei wneud ar hyn o bryd i gyd-fynd â'r cynlluniau cymeradwy gwreiddiol. Angen
10	NP4/16/ENF227C	Gorffennaf 2020	Gwalia Stores, Dolwyddelan	Newid defnydd o fanwerthu i breswyl	Derbyniwyd y cais ac mae'n annilys ar hyn o bryd. Disgwyl gwybodaeth bellach gan yr ymgeisydd.	Cais wrthi'n cael ei ystyried.
11	NP4/26/ENF195C	Ebrill 2021	Llwynau, Capel Garmon	Pod	Cynhelir deialog gyda'r ymgeisydd. Disgwyl gwybodaeth ychwanegol (Cynllun Busnes Fferm) er mwyn dilysu'r cais.	Derbyniwyd gwybodaeth bellach. Cais yn cael ei ddilysu ar hyn o bryd.
12	NP4/26/ENF266W	Ionawr 2020	Zip World Fforest, Betws y Coed	Codi adeilad a chreu llwybrau troed	Cynhaliwyd cyfarfod safle rhwng Zip World, Asiant Cynllunio ac PCE ym mis Mawrth 2022. Aros am gyflwyno cais yn dilyn trafodaethau.	Cais yn cael ei ystyried ar hyn o bryd.

13	NP5/53/ENFLB75Q	10-Maw-2022	Banc Barclays, 68- 70 Stryd Fawr, Y Bala. LL23 7AD	Gwaith adnewyddu i greu gofod swyddfa ar y llawr gwaelod a fflatiau i fyny'r grisiau.	Ymwelwyd â'r safle ac ni nodwyd unrhyw dor- rheolaeth cynllunio. Cais Adeilad Rhestredig a chais cynllunio wedi'i gyflwyno ar gyfer newid defnydd yr eiddo.	Cais yn cael ei ystyried ar hyn o bryd.
14	NP5/61/ENF329B	10- Ion - 2022	Hafod Wen, Harlech. LL46 2RA.	Gwaith peirianyddol heb awdurdod	Cais wedi ei dderbyn ac yn cael ei ddilysu ar hyn o bryd.	Cais yn cael ei ystyried ar hyn o bryd.
15	NP5/62/ENF422	Mehffin 2021	Ty'r Graig, Llanbedr	Ffenestr dormer newydd a chodi adeilad allanol.	Gwrthodwyd y cais. Cynhelir deialog gyda'r perchennog i gael gwared ar / adleoli adeilad allanol.	Trafodaethau ar y gweill gyda'r perchennog ynglŷn ag adleoli adeilad allanol

**Yn disgwyl gwybodaeth bellach neu ymatebion i Rybudd Tor-rheolaeth Cynllunio neu Rybudd Adran 330**

	<b>Cyfeirnod</b>	<b>Dyddiad y gŵyn gyntaf neu'r Dyddiad y'i gwelwyd gan Swyddogion Cydymffurfiaeth</b>	<b>Lleoliad y Safle</b>	<b>Manylion Tor-rheolaeth Cynllunio Honedig</b>	<b>Y Sefyllfa ar Adeg y Cyfarfod Pwyllgor Diwethaf</b>	<b>Diweddariadau ers y Cyfarfod Pwyllgor Diwethaf</b>
16	NP3/12/ENF191	Mehefin 2021	Castell Cidwm, Betws Garmon	Cyflwr blêr y tir.	Mewn deialog gyda'r perchennog / asiant. Aros am gyflwyniad a manylion pellach.	Dim diweddariad pellach i'r pwyllgor hwn.
17	NP3/21/ENF46D	Ionawr 2020	2 Tai'r Cae, Carneddi, Bethesda	Dympio Silt a Phridd	Ystyrir pa mor fuddiol yw dilyn hynt y tor-rheolaeth.	Ddim yn fanteisiol i gymryd camau pellach – achos wedi ei gau.
18	NP4/11/ENF397	Ebrill 2021	Tir i'r gorllewin o'r A470(T) junction gyda A5 ger Waterloo Cottage, Betws y Coed	Defnyddio tir ar gyfer gweryslla gyda strwythurau cysylltiedig	Mae perchennog y tir wedi dweud bod y strwythurau i'w symud o'r safle. Angen ymweliad safle a gohebiaeth bellach i'r perchennog yn dilyn ymweliad.	Ymweliad safle pellach. Anfonwyd gohebiaeth bellach at y perchennog yn dilyn ymweliad safle. Aros am ymateb. Dim diweddariad pellach ar gyfer y pwyllgor
19	NP4/11/ENF401	26-Mai-2022	Tir yn Ffordd Craigan , Betws y Coed. LL24 0SH	Codi cyfleusterau toiled/cawod/golchi a gwaith daear cysylltiedig i gysylltu gwasanaethau.	Mae'r toiledau/cawod/cyfleusterau golchi, ynghyd ag un o'r ardaloedd llawr caled wedi cael eu symud oddi ar y tir. Yn cysylltu â'r datblygwr i drafod dileu/adfer y gwaith sylfaen a chysylltiadau gwasanaeth.	Cynhaliwyd ymweliad safle lle nodwyd bod y cysylltiadau gwasanaeth yn parhau i fod yn y ddaear. Ystyried pa mor fuddiol yw cychwyn gweithredu ffurfiol.
20	NP4/12/ENF26H	24-Aws-2022	Fferm Cae Fadog, Rowen, LL32 8YP	Gwaith di-awdurdod	Cynhaliwyd ymweliad safle.	Anfonwyd gohebiaeth at y perchennog. Aros am ymateb.

21	NP4/12/ENF231A	15-Medi-2022	Cae Tacnal, Llanbedr y Cennin, Conwy, LL32 8UR	Estyniad a newid defnydd posibl	Ymweliad safle l'w gynnal.	Cynhaliwyd cyfarfod safle ar 24/11 gyda'r perchennog i drafod achosion honedig o dorri rheolau cynllunio. Trafodaethau ar y gweill.
22	NP4/13/ENF247	Chwefror 2020	Tir Ger Deunant, Capel Curig	Gwaith Peirianeg, Waliau Cynnal ac Ymwersylla Posibl	Anfonwyd gohebiaeth bellach at y perchennog ddechrau mis Hydref. Aros am ymateb.	Trafodaethau ar y gweill gyda'r perchennog. Hysbyswyd y perchennog o'r bwriad i gyflwyno cais ôl- weithredol
23	NP4/16/ENF405	Mawrth 2018	Tir gyferbyn â Than y Castell, Dolwyddelan	Dympio Deunyddiau Adeiladu a Gwastraff	Achos yn cael ei gyfeirio at gyfreithiwr yr Awdurdod.	Dim diweddariad pellach i'r pwyllgor hwn.
24	NP4/26/ENF97J	Rhagfyr 2020	Maes Madog, Capel Garmon	Adeiliadu strwythru dros twb poeth, adeilad allanol, a newidiadau i'r mynediad.	Cynhelir deialog gyda'r perchennog. Trafodaethau ar y gweill.	Dim diweddariad pellach ar hyn o bryd
25	NP4/29/ENF10G	07- Ion -2022	The Machno Inn, Penmachno. LL24 0UU	Natur flêr y tir a datblygiad adeiladau allanol heb ganiatâd	Cyfarfod safle wedi'i drefnu gyda'r perchennog i drafod materion parhaus. Trafodaethau ar y gweill.	Mae Hysbysiad Adran 215, ynghylch tir sy'n effeithio'n andwyol ar amwynder yr ardal, yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd.
26	NP4/29/ENF191A	09-Mai-2022	Swch, Cwm Penmachno. LL24 0RS	Lleoli carafán yng nghefn yr eiddo	Anfonwyd gohebiaeth a chynhelir deialog gyda'r perchennog. Trafodaethau ar y gweill.	Dim diweddariad pellach ar hyn o bryd

27	NP4/29/ENF514	Hydref 2021	Llys Meddyg, Penmachno	Creu Mynedfa Newydd	Cyfarfod safle wedi'i drefnu gyda'r perchennog i drafod materion parhaus. Trafodaethau ar y gweill.	Gohebiaeth wedi'i anfon at y perchennog yn amlinellu opsiynau i unioni problemau. Ymateb wedi ei dderbyn a thrafodaethau yn parhau.
28	NP4/32/ENF97B	22-Maw-2022	Tir yn ffinio â Dyffryn, Ffordd Crafnant, Trefriw. LL27 0JY	Defnyddio tir fel maes gwerysilla	Mae'n amlwg fod gwaith peiranyddol wedi ei wneud i ledu mynediad i'r tir ac i greu trac mynediad i'r cae. Mae ymweliad pellach wedi'i drefnu i gael ei gynnal i ganfod maint y gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd.	Cais am Wybodaeth o dan Adran 330 wedi'i gyflwyno ym mis Gorffennaf 2022. Ymateb wedi dod i law ac yn cael ei ystyried. Trafodaethau ar y gweill.
29	NP5/50/ENF144C	09-Rhag-2021	Crychnant, Aberdyfi, LL35 0SG.	Gwaith ddim yn unol â chynlluniau cymeradwy NP5/50/144C	Ymweliad safle wedi'i gynnal ac yn aros am ymateb gan y perchennog.	Anfonwyd gohebiaeth bellach at y perchennog. Aros am ymateb.
30	NP5/50/ENF152A	Awst 2021	Bryn Awelon, Aberdyfi	Dwy Sied yn cael eu defnyddio fel Llety Gwyliau	Cysylltwyd ymhellach â'r perchennog mewn perthynas â chyflwyno cais ym mis Chwefror 2022. Yn aros am ymateb.	Dim diweddariad pellach i'w adrodd i'r phyllo hwn.
31	NP5/50/ENFL262C	20-Gorff-2022	8 Sea View Terrace, Aberdyfi, LL35 0EF	Adeilad wedi'i baentio mewn lliw gwahanol	Ymchwiliad yn mynd rhagddo a hanes cynllunio yn cael ei wirio.	Dim tor-rheolaeth wedi'i ganfod – achos wedi'i gau.

32	NP5/54/ENFL246	06-Ebr-2022	Capel Siloh, Bryn Coed Ifor, Rhydymain. LL40 2AN	Torri Amod 5 ynghlwm i Ganiatâd Cynllunio NP5/54/L246.	Ymweliad safle. Anfonwyd gohebiaeth at y perchennog. Dim ymateb hyd yma.	Anfonwyd gohebiaeth at y perchennog ddechrau mis Hydref 2022.
33	NP5/56/ENF165	Hydref 2020	Tir ir gorllewin o A487, Pantperthog, SY20 9AT	Gwaith peirianeg	Nid oes unrhyw gyswilt pellach wedi'i wneud gyda'r perchennog ac mae ymholiadau pellach yn parhau. Mae'r safle'n cael ei fonitro ac nid oes unrhyw waith pellach wedi'i wneud.	Dim diweddariad pellach i'r pwyllgor hwn. Mae'r safle'n parhau i gael ei fonitro.
34	NP5/57/ENF1071 E	Mawrth 2021	Bryn y Gwin Farm, Dolgellau	Gwaith peirianeg	Cysylltwyd ymhellach â'r perchennog ym mis Ionawr 2022.	Dim diweddariad pellach i'w adrodd i'r pwyllgor hwn.
35	NP5/57/ENFLB158D	09-May-2022	Stag Inn, Bridge Street, Dolgellau. LL40 1AU	Ffliw allanol	Ymweliad safle wedi ei gynnal. Anfonwyd gohebiaeth at y perchennog mewn perthynas â thynnu'r ffliw allanol. Aros am ymateb.	Anfonwyd gohebiaeth bellach at y perchennog. Aros am ymateb.
36	NP5/58/ENF19L	Ebrill 2021	Maes Carafannau Sarnfaen Farm, Talybont	Pods wedi'u leoli heb ganiatad.	Derbyniwyd ymateb i ohebiaeth. Cnghorwyd y perchennog ar y bwriad i gydweithredu a symud y podiau oddi ar y safle. Safle i'w fonitro.	Dim diweddariad pellach, safle i'w fonitro.
37	NP5/58/ENF58G	Tachwedd 2019	Bryn y Bwyd, Talybont	Gwaith Peirianyddol a Carafán/Siale wedi'i lleoli yma o bosib	Response received from owners and discussions are ongoing	Dim diweddariad pellach i'r pwyllgor hwn

38	NP5/58/ENF434D	Chwefror 2021	Ty'n y Pant, Dyffryn Ardudwy	Lleoli carafanau teithiol a chyflwr blêr y tir	Hysbysiad Tramgwydd Cynllunio wedi'i gyflwyno Mawrth 2022. Mae asiant wedi'i benodi a disgwylir ymateb i'r Hysbysiad erbyn 9 Mai 2022.	Mae ymatebion i'r Hysbysiad Tramgwyddo Cynllunio wedi'u derbyn a'u hadolygu. Mae gohebiaeth yn parhau gyda'r perchennog. Cynhaliwyd ymweliad safle pellach ar ddechrau mis Tachwedd i asesu'r sefyllfa bresennol ar y tir ac mae trafodaethau pellach i'w cynnal gyda Chyfreithiwr yr Awdurdod.
39	NP5/58/ENF616	Rhagfyr 2018	Tir gerllaw Coed y Bachau, Dyffryn Ardudwy	Lleoli Carafanau Statig a ddefnyddir ar gyfer Dibenion Preswyl	Cyflwynwyd Cais am Wybodaeth o dan Adran 330 ym mis Mai 2022. Yn aros am atebion.	Mae gohebiaeth wedi dod i law ac yn cael ei hasesu ar hyn o bryd.
40	NP5/62/ENF426	Ebrill 2021	Tir ger Plas Gwynfryn, Llanbedr	Leoli carafan static	Apêl yn cael ei dilysu gan PEDW – yn aros am ragor o wybodaeth.	Dim diweddariad pellach ar gyfer y pwyllgor hwn.

41	NP5/65/ENF115A	Hydref 2019	Tir yn Hengwrt, Llanelltyd	Dympio / Storio Matresi a Charpedi	Mae Hysbysiad Tramgwydd Cynllunio wedi'i gyflwyno. Ymatebion wedi eu derbyn ac yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.  Mae CNC wedi cychwyn achos erlyn ac roedd treial i fod i gael ei gynnal yng Nghaerdydd ar 6 Mehefin 2022.	Trafod atebion i'r Rhybudd Talu Cosb gyda'r adran gyfreithiol.  Mae achos erlyn CNC wedi'u gohirio ymhellach, a disgwylir i'r achos gael ei glywed ym mis Chwefror 2023.
42	NP5/70/ENF15N	11-Maw-2022	Maes Gwersylla Pant yr Onnen, Llangywer, Bala, LL237BT	Gosod cwt bugail a defnyddio adeilad clwb catamaran fel llety gwyliau	Cynhelir deialog gyda'r asiant / perchennog ar symud y Cwt Bugeiliaid o'r safle.	Cadarnhaodd y perchennog y bydd y Cwt yn cael ei symud o'r safle. Ymweliad safle i'w gynnal.
43	NP5/70/ENF81H	19-Ebr-2022	Cefn-y-Meirch, Rhosygwaliau. LL23 7EY	Sied amaethyddol yn cael ei thrawsnewid yn llety cyfanheddol a charafan sefydlog yn cael ei defnyddio fel llety preswyl.	Anfonwyd gohebiaeth bellach at y perchennog. Aros am ymateb.	Dim diweddariad pellach ar gyfer y pwyllgor hwn.



Achosion lle mae camau ffurfiol yn cael eu hystyried / wedi'u cymryd.

	Cyfeirnod	Dyddiad y gŵyn gyntaf neu'r Dyddiad y'i gwelwyd gan Swyddogion Cydymffurfiaeth	Lleoliad y Safle	Manylion Tor-rheolaeth Cynllunio Honedig	Y Sefyllfa ar Adeg y Cyfarfod Pwyllgor Diwethaf	Diweddariadau ers y Cyfarfod Pwyllgor Diwethaf
44	NP2/16/ENF448	Mai 2017	Chwarel Hendre Ddu, Cwm Pennant	Chwarela Diawdurdod a Chreu Trac	<p>Cynhaliwyd ymweliad safle ar y 12fed o Ebrill. Gwnaed gwaith di-awdurdod, dechreuwyd camau gorfodi a chyflwynwyd Rhybudd Atal Dros Dro mewn perthynas ag echdynnu gwastraff mwynau o domenni llechi ac adeiladu traciau newydd.</p> <p>Mae'r Hysbysiad yn dod i ben ar 3 Gorffennaf 2019. Mae Rhybudd Gorfodaeth yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd.</p> <p>Nid oes unrhyw waith pellach wedi'i wneud. Ymgymerir ag adroddiad doethineb o ran cymryd camau pellach mewn perthynas â'r gwaith a wnaed.</p>	Dim diweddariad pellach i'w adrodd i'r pwyllgor hwn.

45	NP4/11/ENF337	Mai 2020	Hendre Rhys Gethin, Pentre Du, Betws y Coed	Defnydd Preswyl - Carafán Deithiol	<p>Mae Rhybudd Gorfodi dilys ar gyfer y tor Rheolaeth honedig hwn, lle mae'n ei gwneud yn ofynnol iddynt roi'r gorau i wneud defnydd preswyl o'r garafán ac i'r garafán gael ei symud. Mae'n ymddangos nad yw'r tirlfeddiannwr wedi cydymffurfio â gofynion y Rhybudd Gorfodaeth. Dechrau ar gamau cyfreithiol. Gohebiaeth bellach wedi bod hefo'r perchennog. Dim ymateb gan y tirlfeddiannwr, mater wedi'i gyfeirio at yr adran gyfreithiol. Cyfarwyddiadau wedi'u hanfon at yr adran gyfreithiol i ddechrau achos Erlyniad.</p>	<p>Yn dilyn trafodaeth gadarnhaol gyda'r perchennog, mae'r achos wedi'i ohirio tan fis Chwefror 2022 i geisio datrys y mater yn gadarnhaol. Mae'r gohiriad hwn wedi'i ymestyn hyd at ddiwedd mis Ebrill 2022 a bellach mae'r achos wedi'i atal tra bod y broses ceisiadau Cynllunio wedi dod i ben.</p> <p>Cyflwynwyd cais Cynllunio ar gyfer Anedd Menter Wledig ym mis Chwefror 2022. Fodd bynnag, yn dilyn pryderon nad oedd yr ymgeisydd wedi bodloni'n llawn y profion a ragnodwyd o dan Nodyn Cyngor Technegol 6, mae'r ymgeisydd wedi tynnu'r cais yn ôl.</p> <p>Yn dilyn hynny ar ddiwedd Gorffennaf 2022 mae cais pellach wedi ei gyflwyno am dŷ fforddiadwy ac mae hwn bellach dan ystyriaeth.</p>
----	---------------	----------	---	--	--	--

46	NP5/50/ENF562P	Gorffennaf 2020	62 Plas Panteidal, Aberdyfi	Estyniad i'r ardal decio	Derbyniwyd cais cynllunio ôl-weithredol ar 30 Mehefin 2021 ac yn cael ei ystyried ar hyn o bryd.	Gwrthodwyd y cais. Ymweliad safle i'w gynnal i benderfynu a yw'r decin di-awdurdod wedi'i symud ymaith. Y camau nesaf i'w trafod yn dilyn yr ymweliad.
47	NP5/55/ENFL142A	Mehefin 2017	3 Glandŵr, Brynchrug	Cyflwr blêr yr eiddo	<p>Rhybudd Adran 215 wedi'i gyflwyno ar 18 Chwefror 2019. Ni chafwyd unrhyw apêl, felly mae'r Hysbysiad wedi dod i rym. Rhaid cydymffurfio â'r Hysbysiad yn llawn erbyn 22 Ionawr 2020.</p> <p>Mae ymweliad safle diweddar wedi digwydd lle nodwyd na chydymffurfiwyd â'r Rhybudd / Hysbysiad. Ysgrifennwyd llythyr at y perchennog yn cynghori bod yn rhaid iddynt gydymffurfio â gofynion y Rhybudd / Hysbysiad ar unwaith er mwyn osgoi camau pellach.</p> <p>Nid oes unrhyw waith adfer wedi digwydd ac mae achos erlyn yn cael ei ystyried yn awr.</p> <p>Mae ymweliad safle pellach wedi digwydd lle nodwyd na chydymffurfiwyd</p>	<p>Yn dilyn ymchwiliadau pellach, darganfuwyd cyfeiriad cyswllt posibl.</p> <p>Mae llythyr wedi'i ddsbarthu â llaw i'r cyfeiriad hwn ac er nad oedd neb yn bresennol adeg y danfoniad, cadarnhawyd bod perchennog 3 Glandwr yn byw yn y cyfeiriad a ddarparwyd.</p> <p>Dim ymateb wedi dod i law. Felly mae llythyr pellach wedi'i ddsbarthu â llaw i'r cyfeiriad dan sylw, ac mae angen ymateb o fewn 21 diwrnod.</p>

					<p>â gofynion yr Hysbysiad Adran 215.</p> <p>Dechrau achos erlyn ac anfon cyfarwyddiadau at Gyfreithiwr yr Awdurdod.</p>	<p>3 Glandwr wedi ei osod ar Rhestr flaenoriaeth grŵp Rheoli Eiddo Gwag Cyngor Gwynedd.</p>
48	NP5/57/ENF205K	Mai 2021	Gwesty Fronolau, Dolgellau	<p>Newidiadau Allanol a Chreu Chwe Uned Breswyl Hunangynhwysol</p>	<p>Cais cynllunio ôl-weithredol wedi ei gyflwyno ar gyfer newidiadau allanol i'r gwesty sydd wedi eu gwrthod.</p> <p>Mae wedi dod i'r amlwg bod adeilad y gwesty wedi'i rannu'n 6 uned ar wahân.</p> <p>Cysylltwyd â'r perchennog a'i asiant a chyflwynwyd Hysbysiad Tramgwydd Cynllunio a derbyniwyd ymatebion. Cyflwynwyd Rhybudd Gorfodaeth ar 26 Ionawr 2022 ar gyfer y newid sylweddol yn nefnydd y tir o ddefnydd C1 fel gwesty i ddefnydd C3, a datblygiad gweithredol yn cynnwys newidiadau allanol i greu chwe uned breswyl hunangynhaliol unigol yn cynnwys dau o fythynnod 3 llofft a phedwar fflat 3 llofft. Mae'r gofynion i</p>	<p>Mae Apêl Hysbysiad Gorfodi wedi'i chyflwyno ac mae'r broses wedi dechrau gyda PEDW (Penderfyniadau Cynllunio a'r Amgylchedd Cymru). Mae datganiad achos yr Awdurdod wedi'i gyflwyno a sylwadau terfynol wedi'u derbyn.</p> <p>Aros am benderfyniad ffurfiol gan PEDW.</p>

					gydymffurfio a'r Rhybudd yn nodi y dylid dychwelyd defnydd y Tir i C1 – defnydd gwesty.	
49	NP5/58/ENF144K	Rhagfyr 2018	Tir yn Tan y Coed, Talybont	Lleoli Carafanau Statig a ddefnyddir ar gyfer Dibenion Preswyl	Cysylltwyd â pherchennog y tir. Cynhaliwyd cyfarfod safle ac fe drafodwyd lleoliad a defnydd y garafán. Mae'r perchennog yn ystyried ei opsiynau ar hyn o bryd i reoleiddio'r sefyllfa. A Cyflwynwyd Rhybudd Atal Cynllunio i ddarganfod mwy o fanylion am ddefnyddio'r garafán. Derbyniwyd ymatebion ac mae'r rhain yn cael eu hasesu ar hyn o bryd.	Mae'r perchennog wedi hysbysu bod cais Tystysgrif Defnydd Cyfreithlon yn cael ei pharatoi ar hyn o bryd. Dros y 12 mis diwethaf nid oes unrhyw gais wedi ei dderbyn – i ystyried pa mor fuddiol fyddai dechrau ar gamau gweithredu ffurfiol. Mae'r perchennog wedi cadarnhau y bydd cais CLEUD yn cael ei gyflwyno erbyn 15 Rhagfyr 2022.

## Achosion Adeiladau Rhestredig

	Cyfeirnod	Dyddiad y gŵyn gyntaf neu'r Dyddiad y'i gwelwyd gan Swyddogion Cydymffurfiaeth	Lleoliad y Safle	Manylion Tor-rheolaeth Cynllunio Honedig	Y Sefyllfa ar Adeg y Cyfarfod Pwyllgor Diwethaf	Diweddariadau ers y Cyfarfod Pwyllgor Diwethaf
50	NP5/54/ENFLB33M	Ionawr 2020	Neuadd Nannau, Llanfachreth	Cyflwr Gwael Adeilad	<p>Tynnwyd sylw'r Awdurdod bod y plwm o do'r adeilad wedi'i dynnu a bod cyflwr cyffredinol yr adeilad yn dirywio'n gyflym.</p> <p>Mae ymweliad safle wedi cadarnhau hyn.</p> <p>Cysylltwyd â'r perchennog sy'n ymwybodol o gyflwr yr adeilad. Maent yn cynnig gwneud atgyweiriad dros dro i'r to nes y gallant ymweld â'r eiddo ar yr adeg honno a chanfod y difrod iddynt eu hunain.</p> <p>Hyd yma ni wnaed unrhyw atgyweiriadau dros dro. Cysylltwyd â'r perchennog eto i bwysleisio brys y sefyllfa. Maent yn cynnig gwneud gwaith atgyweirio dros dro nes eu bod yn gallu ymweld ac asesu maint y gwaith sy'n ofynnol i'r adeilad. Trefnwyd cyfarfod gyda CADW i drafod opsiynau posibl i ddiogelu Neuadd Nannau.</p>	<p>Fel yr adroddwyd ym mhwyllgor Hydref 2021, y camau nesaf i symud ymlaen hefo Nannau yw:</p> <p>Cynnal Arolwg Cyflwr llawn i gynnwys y tu mewn.</p> <p>Ymgynghori ag arbenigwr toi.</p> <p>Ystyried symud y Rhybudd Gwaith Brys a chytuno ar yr hyn sydd angen ei gynnwys yn hyn.</p> <p>Parhau i gyfathrebu â'r perchennog a rhoi gwybod am fwriadau'r Awdurdod.</p> <p>Sefydlu grŵp llywio i gael y cyngor cadwraeth / treftadaeth angenrheidiol a chynnal momentwm.</p>

				<p>Mae cyfarfod wedi'i gynnal gyda CADW ac mae trefniadau'n cael eu gwneud i gynnal arolwg cyflwr o'r adeilad. Rhagwelwyd y byddai'r arolwg hwn yn cael ei gynnal ddechrau mis Chwefror ond mae hyn wedi'i ohirio.</p> <p>Mae arolwg cyflwr allanol wedi'i drefnu ar gyfer yr wythnos sy'n dechrau ar 5 Ebrill 2021.</p> <p>Ar hyn o bryd mewn trafodaeth gyda'r perchennog mewn perthynas ag cynnal arolygiad</p> <p>Bydd methu â chytuno i'r Awdurdod gynnal archwiliad mewnol, yn arwain at gais i'r llysoedd am warant i gael mynediad.</p>	<p>Trafodaethau cychwynnol gydag Ecoleg mewn perthynas â phresenoldeb posib ystlumod.</p> <p>Yn dilyn ymyrraeth gan y gwasanaeth cyfreithiol mewn perthynas â cheisio gwarant a chysylltu â'r perchennog, maent wedi cytuno y gall yr Awdurdod gynnal archwiliad mewnol a rhagwelir y bydd hyn yn digwydd yn ystod yr wythnos yn dechrau 21 Chwefror 2022.</p> <p>Mae arolygiadau allanol a mewnol bellach wedi'u cynnal. Mewn trafodaeth ar hyn o bryd ag ymgynghorwyr cadwraeth/arbenigwyr toi mewn perthynas â'r math o waith sydd ei angen a fydd yn diogelu cyfanrwydd yr adeilad.</p> <p>Mae Plas Nannau wedi ei osod ar Restr flaenoriaeth grŵp Rheoli Eiddo Gwag Cyngor Gwynedd. Yn dilyn penodi ein Swyddog Cynllunio</p>
--	--	--	--	---	--

51	NP5/66/ENFLB32D	Tachwedd 2020	Ty Mawr, Llanfair	Gwaith mewnol yn cael ei wneud	Llythyr wedi ei anfon i'r eiddo. Ymateb wedi ei dderbyn a trafodwyd y gwaith gyda'r perchennog. Ymweliad safle i'w gynnal. Ymweliad safle wedi ei gynnal. Cais wedi ei gyflwyno ond yn annilys.	Cynhelir deialog gyda'r asiant/ymgeisydd mewn perthynas a'r cais annilys a gyflwynwyd.
52	NP5/69/ENFLB326A	Medi 2018	Tŷ Gwyn, Llwyngwrlil	Newidiadau allanol a mewnol i adeilad rhestredig.	Cysylltir a'r asiant i weld a fydd cais am ganiatâd adeilad rhestredig yn cael ei gyflwyno.	Dim diweddariad pellach i'r pwyllgor hwn.





**PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD  
07 RHAGFYR 2022**

**CYTUNDEBAU ADRAN 106**

**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI  
PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD, 07 RHAGFYR 2022**

**CYTUNDEBAU ADRAN 106**

<b>Rhif</b>	<b>Rhif y cais</b>	<b>Dyddiad y daeth y cais i law</b>	<b>Lleoliad</b>	<b>Datblygiad</b>	<b>Y Sefyllfa Ddiweddaraf</b>
1.	NP4/11/398	07/07/2021	Tir ger y Feddygfa, Betws-y-Coed.	Codi 5 tŷ deulawr fforddiadwy gyda thirlunio cysylltiol, mynedfa a llefydd parcio	Gyda cyfreithiwr i'w arwyddo
2.	NP5/55/L140E	03/06/2021	Capel Bethlehem, Brynchrug. LL36 9PW	Newid defnydd capel i ffurfio un annedd 1 lloft ac un annedd 6 lloft	Drafft wedi ei yrru i'r ymgeisydd
3.	NP5/61/632	12/03/2021	Merthyr Isaf, Hwylfa'r Nant, Harlech. LL46 2UE	Datblygiad preswyl saith uned 3 fforddiadwy a 4 marchnad agored yn cynnwys tri phar o dai un talcen ac un ty ar wahan, creu mynedfa cerbydau newydd a thirlunio cysylltiol	Drafft wedi ei yrru i'r ymgeisydd
4.	NP5/65/2B	04/03/2021	Beudy Uchaf Hirgwm, Maes y Clawdd, Bontddu. LL40 2UR	Trosi ysgubor yn annedd a gwaith cysylltiol gan gynnwys gosod tanc septig a arallgyfeirio llwybr cyhoeddus	Manylion wedi ei yrru i'r cyfreithiwr i ddrafftio cytundeb.
